



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

**i Adroddiad yr Athro Dai Smith ar:**

***'Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion***

***Cymru'***

**Mawrth 2013**

*"Mae'r rhan fwyaf o bethau'n ymwneud â gweithio drwyddi a hynny gyda phobl, ac mae dysgu'n rhan o hynny. Nid yw'n ymwneud â ffeithiau. Gallwch ddweud y gwir wrth rywun hyd nes byddwch yn biws. Ond oni bai bod ganddynt ddiddordeb yn y peth a'u bod yn ei gredu, ac yn ei amgyffred yn emosiynol, ni fyddant yn ei dderbyn. Rydych chi'n dysgu drwy'r celfyddydau...Er mwyn ymdopi â byd sy'n newid, mae angen i ni gael pobl llawn dychymyg, creadigrwydd a gweledigaeth sydd â'r hunanhyder i addasu".*  
John Harvey-Jones, Diwydiannwr (1924-2008)

## Cyflwyniad

Mae dysgu am y celfyddydau a diwylliant, a chwarae rhan weithgar ym mywyd diwylliannol yr ysgol a chymunedau ehangach, yn hanfodol i ddatblygu hunaniaeth a hunan-barch person ifanc. Cytunwn â sylw Dai Smith, ar ddechrau ei adroddiad, fod:

*'Rhaid i ni, er mwyn llwyddo'n economaidd a ffynnu'n gymdeithasol, sicrhau bod addysg o safon wedi'i gwreiddio mewn creadigrwydd fel ymarfer a diwylliant fel gwybodaeth. Wrth wraidd yr undod hwn mae'r celfyddydau – celfyddydau sy'n ysbrydoli ac yna'n creu ein nod dymunol yn y gymdeithas greadigol. Fel arall, ar y gorau, byddwn yn ddyngwaredol ac felly'n eilradd'.*

Cytunwn hefyd ag argymhelliad cyntaf yr Athro Smith, ac rydym yn falch o'i gymeradwyo, sef y dylai Llywodraeth Cymru *'gydnabod yn ffurfiol y rôl ganolog y mae'n ei rhagweld ar gyfer addysg gelfyddydol yn ysgolion Cymru drwy ymrwymo i ddarparu addysg o safon uchel yn y celfyddydau a mynediad i'r celfyddydau'*. Byddwn yn gwneud hyn i raddau helaethach pan gyhoeddir ein Cynllun Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Dysgu Creadigol.

Hoffem ddiolch ar gofnod i'r Athro Dai Smith a'i grŵp gorchwyl am gynnal adolygiad ar y raddfa hon mewn modd trylwyr a manwl, a hynny ar draws sector mor wahanol. Mae ei weledigaeth ar gyfer rhagoriaeth ym maes addysg ddiwylliannol, er mwyn galluogi plant o bob cefndir ac o bob cwr o Gymru i gael y cyfle i brofi a mwynhau'r gorau o'n treftadaeth ddiwylliannol unigryw, yn un rydym yn ei rhannu. Hoffem ddiolch hefyd i bawb a gyfrannodd at yr Adolygiad, yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, nifer fawr o bobl ifanc, a llu o athrawon, artistiaid, sefydliadau celfyddydol ac addysgwyr.

Rydym wedi nodi isod ein hymateb cychwynnol i'r 12 o argymhellion yn yr adroddiad. Caiff y rhain eu datblygu ymhellach yn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol, a chyhoeddir y fersiwn cyntaf o'r cynllun yn ystod yr haf eleni. Cydnabyddwn yr her o roi argymhellion yr Athro Smith ar waith ar adeg pan fo pwysau difrifol ar gyllidebau, ac felly byddwn yn edrych yn ofalus ar opsiynau ar gyfer gweithio gyda rhaglenni sydd eisoes ar gael lle y bo'n bosibl i sicrhau canlyniadau cynaliadwy hirdymor. Rydym yn gwbl ymrwymedig i weithio'n agos gyda'r sector addysg a sector y celfyddydau, a phartneriaid allweddol eraill, i weithredu ar yr agenda hollbwysig hon.

### John Griffiths

John Griffiths AC / AM  
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon  
Minister for Culture and Sport

### Huw Lewis

Huw Lewis AC / AM  
Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Minister for Education and Skills

## Ymateb i'r argymhellion

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod yn ffurfiol y rôl ganolog y mae'n ei rhagweld ar gyfer addysg gelfyddydol yn ysgolion Cymru drwy ymrwymo i ddarparu addysg o safon uchel yn y celfyddydau a mynediad i'r celfyddydau.

**Cytunwn.** Mae gan y celfyddydau rôl bwysig i'w chwarae o ran cyfoethogi addysg plant a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod ac yn cymeradwyo'r arfer da sy'n mynd rhagddo yn sawl un o'n hysgolion a'r addysg wych a ddarperir gan sawl un o'n sefydliadau celfyddydol, ond cydnabyddwn hefyd fod angen cymryd camau gweithredu i sicrhau bod manteision creadigrwydd a chyfranogiad yn y celfyddydau ar gael i ddysgwyr ym mhob un o'n hysgolion.

Byddwn felly'n datblygu *Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol* a gaiff ei gyhoeddi'r haf hwn. Bydd y cynllun yn mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad y Celfyddydau mewn Addysg. Bydd yn nodi sut y caiff y sector addysg a sector y celfyddydau eu cefnogi i weithio gyda'i gilydd i ddarparu cynnig celfyddydol o safon uchel i ysgolion, a bydd yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sef lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a gwella safonau llythrennedd a rhifedd.

Bydd y cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru, ysgolion, consortia ac awdurdodau addysg, Cyngor Celfyddydau Cymru, cyrff celfyddydol a diwylliannol. Yn ogystal â hyn, bydd yn cynnwys gwybodaeth am atebolrwydd, amserlenni a'r gwaith o gasglu gwybodaeth er mwyn dangos effaith ymyriadau celfyddydol ar ddeilliannau addysgol.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo defnyddio'r celfyddydau i helpu i wella rhifedd a llythrennedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.

**Cytunwn,** a chydabyddwn y rôl bwysig y mae'r celfyddydau yn ei chwarae o ran cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd. Datblygwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (y Fframwaith) i sicrhau bod sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu cynnwys ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm, yn hytrach na'u bod yn canolbwyntio ar wersi Cymraeg, Saesneg neu fathemateg yn unig.

Byddwn yn ystyried ffyrdd o ddefnyddio'r celfyddydau i ategu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, er enghraifft drwy ddatblygu deunydd enghreifftiol ar-lein i athrawon. Byddwn hefyd yn integreiddio gweithgareddau sy'n seiliedig ar y celfyddydau yn yr hyfforddiant a ddarperir gan y Rhaglen Cymorth Genedlaethol sy'n cefnogi ysgolion i roi'r Fframwaith ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth ymgysylltu â sector y celfyddydau o ran helpu ein plant a'n pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Byddwn yn gweithio gyda'r sector treftadaeth a sector y celfyddydau i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn.

Cytunwn fod cymryd rhan yn y celfyddydau yn gallu bod yn ffordd ddefnyddiol o ymgysylltu â dysgwyr hŷn sydd wedi dadrithio. Mae tystiolaeth yn dangos hefyd bod

cymryd rhan yn y celfyddydau yn gallu cefnogi'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr ifanc, yn arbennig, ar yr amod bod y gweithgareddau celfyddydol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn modd strwythuredig. Byddwn yn datblygu astudiaethau achos o arfer effeithiol, yn cynnwys enghreifftiau o gymryd rhan yn y celfyddydau.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r cwricwlwm presennol i gynnwys creadigrwydd, ochr yn ochr â rhifedd a llythrennedd fel thema graidd ar draws yr holl ddisgyblaethau pwnc ac mewn addysg gynradd ac uwchradd; at hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried addysg sy'n gyfoethog yn y celfyddydau yn rhan greiddiol o brofiad ysgol gyfan pob disgybl ac ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, dylai sicrhau profiad eang o'r celfyddydau y tu allan i'r ysgol yn ogystal â rhyngweithio ag artistiaid proffesiynol yn yr amgylchedd ysgol.

**Cytunwn** y dylai creadigrwydd fod yn elfen bwysig o'r cwricwlwm, felly rydym wedi gofyn i'r Athro Graham Donaldson ystyried yr argymhelliad pwysig hwn fel rhan o'i adolygiad annibynnol o'n cwricwlwm a threfniadau asesu. Roedd ein ymgynghoriad diweddar ar Gwricwlwm Cymru yn cynnwys cynigion i gynnwys creadigrwydd fel thema allweddol o dan 'Sgiliau Ehangach', gyda'r bwriad o osod y sgiliau hyn ar sail statudol yn y cwricwlwm yng Nghymru. Mae'r rhestr a gynigiwyd (meddwl yn feirniadol a datrys problemau: cynllunio a threfnu; creadigrwydd ac arloesi; effeithiolrwydd bersonol; llythrennedd ddigidol) yn cydnabod y pwyslais rydym yn ei osod ar gwricwlwm sy'n annog agweddau creadigol at ddysgu. Byddai'r sgiliau hyn yn nodwedd ganolog o'r trefniadau cwricwlwm o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4 a byddai'n sicrhau eu bod wedi'u halinio â'r model diwygiedig ar gyfer Bagloriaeth Cymru, ac yn cynnig dilyniant at y cymhwyster hwnnw ar ei newydd wedd.

Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn edrych ar set ehangach o faterion sy'n gysylltiedig â chynllunio cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau gwell rhwng ysgolion a chyrrff allanol, ee sefydliadau celfyddydol, i gyfoethogi profiadau dysgu plant yng Nghymru. Caiff ystyriaeth ei rhoi hefyd i sut y byddai unrhyw newid i'n trefniadau cwricwlwm yn cael ei lywodraethu a'i roi ar waith, gan gynnwys yr angen am hyfforddiant pwrpasol i gefnogi gwaith i wireddu'r newidiadau hyn.

O ran ail ran yr argymhelliad hwn, **cytunwn** y dylai addysg sy'n gyfoethog yn y celfyddydau fod yn ganolog i brofiad ysgol gyfan pob dysgwr. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i gynyddu'r 'cynnig' addysgol a ddarperir gan sefydliadau celfyddydol, ac i'w gwneud yn fwy hygyrch i ysgolion.

**Argymhelliad 4:** Dylai'r holl hyfforddiant cychwynol athrawon (HCA) a ddarperir gan sefydliadau AU yng Nghymru sicrhau bod y fethodoleg addysgu creadigol yn 'greiddiol' i ymarfer addysgol.

**Cytunwn.** Er nad yw Llywodraeth Cymru yn pennu cynnwys y cwrs HCA ar gyfer sefydliadau AU, rydym wedi penodi cynghorydd sy'n arbenigo mewn HCA a fydd yn gweithio'n agos gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol i helpu i lywio HCA yng Nghymru. Bydd y rôl yn cynnwys sicrhau bod arfer gorau yn cael ei gydnabod a'i rannu ar draws y sector HCA ehangach, yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau o ran y

fethodoleg addysgu creadigol.

Os caiff creadigrwydd ac arloesedd eu derbyn fel 'sgiliau ehangach' yn y cwricwlwm (gweler Argymhelliad 3) byddem yn disgwyl i bob sefydliad AU yng Nghymru gynnwys arfer gorau ar ddysgu creadigol fel rhan o HCA. Byddai unrhyw newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn diwygiedig o Safonau Statws Athro Cymwysedig ar gyfer Cymru.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru weithio gyda grŵp o ymarferwyr addysg profiadol i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. Dylai hyn fynd i'r afael ag anghenion athrawon ac ymarferwyr yn y celfyddydau, ac ategu'r blaenoriaethau cenedlaethol o wella safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.

**Cytunwn.** Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ymagwedd at ddatblygiad proffesiynol effeithiol sy'n seiliedig ar arferion dysgu a myfyrio cydweithredol. Byddwn yn datblygu'r ymagwedd hon er mwyn creu fframwaith DPP sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau sydd â'r nod o sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddefnyddio'r celfyddydau i helpu i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol.

Byddwn yn ystyried hefyd sut y gallwn gynyddu nifer y cyfleoedd ar gyfer DPP o safon uchel sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, sy'n ategu'r blaenoriaethau cenedlaethol o wella safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a sector y celfyddydau er mwyn sicrhau bod hyn yn diwallu anghenion sefydliadau celfyddydol yn ogystal ag athrawon.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth y Cynulliad gefnogi:

- Meithrin 'hyrwyddwyr celfyddydau' yn y cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu creadigol
- Gwobrau Celfyddydau Cymru a/neu fedalau i athrawon unigol

**Cytunwn** fod angen i ysgolion gael cydnabyddiaeth a chymhellion ar gyfer cefnogi dysgu creadigol. Byddwn felly, mewn ymgynghoriad â'r pedwar consortiwm addysg, Cyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid eraill, yn ystyried opsiynau ar gyfer codi proffil y celfyddydau mewn ysgolion a sut y gellir cefnogi athrawon sy'n arbenigo yn y celfyddydau, neu athrawon nad ydynt yn arbenigo yn y celfyddydau.

Byddwn yn ystyried hefyd sefydlu gwobr genedlaethol flynyddol sy'n cydnabod ac yn annog arfer da yn y celfyddydau ac mewn diwylliant a chreadigrwydd.

**Argymhelliad 7:** Dylid cynnwys yng nghylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth leol yr angen i weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia addysg i

flaenoriaethu amrywiaeth o fentrau penodol, i gynorthwyo a datblygu addysgu creadigol, i gynnwys:

- Tystysgrifau Nod Celfyddydau Cymru
- Mentora athrawon drwy ddefnyddio ymarferwyr y celfyddydau a sefydliadau celfyddydol
- Gweithio gyda llywodraeth leol i nodi, datblygu a chynnal system o 'hyrwyddwyr y celfyddydau' mewn ysgolion

**Cytunwn.** Byddem yn croesawu partneriaethau newydd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, llywodraeth leol a'r consortia addysg sy'n arwain at ddarpariaeth well ar gyfer y celfyddydau mewn ysgolion.

Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r consortia addysg i ddatblygu trefniadau mentora rhwng athrawon a sefydliadau celfyddydol, a ffyrdd o adnabod arfer gorau yn y celfyddydau mewn ysgolion.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod Porth Addysg Creadigol yn cael ei ddatblygu, fel elfen ychwanegol, integredig o 'Hwb', Llwyfan Dysgu Digidol Cymru gyfan.

**Cytunwn.** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella'r modd y caiff y cynnig celfyddydol ei gyfleu i ysgolion, ac i sicrhau bod enghreifftiau o arfer gorau ac adnoddau o safon uchel ar gael iddynt.

Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i gynnal ymarfer cwmpasu i bennu cynnwys a swyddogaeth porth addysg creadigol addas a fydd yn cael ei integreiddio gyda Hwb, llwyfan dysgu Cymru gyfan. Y nod fydd datblygu llwyfan ar gyfer ymarferwyr addysg a'r celfyddydau a fydd yn:

- rhoi gwybodaeth am y 'cynnig' cenedlaethol a rhanbarthol o ran y celfyddydau mewn addysg
- cynnal/cysylltu ag adnoddau dysgu ac addysgu
- cynnal astudiaethau achos o arfer gorau
- dangos ymyriadau celfyddydol sy'n ategu llythrennedd a rhifedd ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad
- cysylltu â chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

**Argymhelliad 9:** Dylid cynnwys yng nghylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru yr angen i weithio gyda'i gleientiaid sy'n cael cyllid refeniw a sefydliadau diwylliannol eraill i sefydlu 'Rhwydweithiau Dysgu Creadigol' i annog celfyddydau, artistiaid, athrawon, rhieni ac addysgwyr i gyfnewid syniadau a gwybodaeth, ac i gydweithio â Chymunedau Dysgu Proffesiynol i wella safonau dysgu creadigol mewn ysgolion. Dylai'r Rhwydweithiau adlewyrchu a llywio'r pedwar consortiwm addysgol rhanbarthol.

**Cytunwn,** a byddwn yn cynnwys yng nghylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru yr angen i ddatblygu rhwydweithiau o'r fath mewn ymgynghoriad â'r celfyddydau, artistiaid, athrawon, addysgwyr, rhieni a threfnwyr cymunedol eraill.

Drwy wneud hyn, byddwn yn cynnwys yng nghylch gwaith y Cyngor yr angen i ystyried cost ac ymarferoldeb cysylltu'r rhwydweithiau â chyfres o 'Hybiau Dysgu Creadigol', a fyddai'n gweithio'n agos gyda'r consortia addysg rhanbarthol. Gallai Hybiau o'r fath fod yn gyfrifol am gydlynu a chyflwyno'r Cynllun Cenedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Creadigol ar lefel ranbarthol.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau ariannu wedi eu hanelu at sicrhau bod darpariaeth deg ar gael i bobl ifanc ym mhob celfyddyd, a bod pobl ifanc eithriadol o dalentog yn gallu meithrin a datblygu eu talentau.

**Cytunwn** i archwilio'r opsiynau ariannu sydd wedi'u hanelu at ddarpariaeth decach i bobl ifanc ym mhob celfyddyd.

Telir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn uniongyrchol i ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion o gefndiroedd dan anfantais. Gall ysgolion ddewis defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi disgyblion i fanteisio ar weithgareddau cyfoethogi. Er enghraifft, gall ysgolion nodi pobl ifanc eithriadol o dalentog a'u cefnogi i ddatblygu'r dalent honno.

**Cytunwn** y dylai pobl ifanc eithriadol o dalentog allu dilyn a datblygu eu talent. Wrth ddatblygu ein Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol, byddwn yn cyflawni rhagor o waith ar y llwybrau dilyniant ar gyfer pob un o'r prif ffurfiau ar gelfyddyd. Bydd hyn yn nodi pa gamau gweithredu y gellir eu cymryd i wella pa mor ddigonol a fforddiadwy yw'r cyfryw lwybrau a'u cwrmpas i bobl ifanc ledled y wlad.

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru weithio mewn partneriaeth i roi pwyslais cryfach ar ddarparu cyngor gyrfa mwy cytbwys i bobl ifanc er mwyn amlygu cyfleoedd a llwybrau yn y celfyddydau a sector y diwydiannau creadigol.

**Cytunwn.** Mae Career Choices Dewis Gyrfa Cyf. (Gyrfa Cymru) bellach yn is-gwmni sydd ym mherchenogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru ac mae ganddo gylch gwaith i gynyddu'r graddau y mae'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor diduedd drwy wefan well, dros y ffôn a thrwy roi arweiniad wyneb yn wyneb lle bo'n briodol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru i wella sut y caiff Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a gaiff ei chyhoeddi ar Gyrfacymru.com ei chyfleu ac i wneud y wybodaeth honno yn fwy perthnasol er mwyn cefnogi pobl ifanc sy'n gwneud dewisiadau gyrfa. Mae Gyrfacymru.com yn rhoi gwybodaeth am weithio yn y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau, ac mae'n cynnwys fideos o artistiaid a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant creadigol. Byddwn yn annog Gyrfa Cymru i weithio gyda'r sector diwydiannau creadigol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar-lein, sy'n hawdd ei deall, am alwedigaethau yn y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau.

O ran gwella'r cyngor ar yrfaeodd a ddarperir mewn ysgolion, rydym yn cymryd camau gweithredu mewn ymateb i adroddiad Estyn 2012, *Penderfyniadau Gwybodus – Gweithredu'r Fframwaith Gyrfaeodd a'r Byd Gwaith*. Byddwn yn cyflwyno cais i WEFO

(Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) am brosiect a noddir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n ceisio meithrin gallu ac adnoddau a chefnogi ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, gyda'r nod o ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa pobl ifanc.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal archwiliad cyfnodol o ysgolion Cymru i asesu i ba raddau y mae dysgu creadigol yn cael ei ymgorffori ynddynt, ac ansawdd y profiad celfyddydol parhaus a'i effaith ar ddeilliannau llythrennedd a rhifedd.

**Cytunwn.** Rydym yn trafod ag Estyn ar hyn o bryd i gytuno ar gwmpas adolygiad o'r celfyddydau: i roi gwybodaeth am ansawdd profiadau dysgu ac addysgu'r celfyddydau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd; i archwilio sut mae ysgolion yn defnyddio'r celfyddydau i ategu llythrennedd a rhifedd ac i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad; ac i amlygu arfer gorau ym mhob pwnc y celfyddydau.